# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ22372 ac OAQ223373, a gyhoeddwyd gan Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar 12 Mawrth 2003

**At Ann Jones:**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Chwefror 2003 ynglŷn â defnyddio amddifadedd cymdeithasol fel nodwedd orfodol yn fformiwla gyllido'r awdurdodau addysg lleol, a'r ateb a roddais innau i'ch cwestiynau llafar i'r Cynulliad ar 12 Chwefror—OAQ22372 ac OAQ22373.

Hoffwn egluro rhai materion. O dan ddarpariaethau'r rheoliadau cyfredol sy'n llywodraethu fformiwlâu cyllidebau ysgolion, nid oes modd gwneud amddifadedd cymdeithasol yn nodwedd orfodol o fformiwla gyllido awdurdodau addysg lleol gan ei fod wedi'i gynnwys yn y rhestr o ffactorau y caiff awdurdodau eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu pa ffactorau y maent am eu cynnwys yn eu fformiwlâu cyllido ysgolion. Mater felly i'r awdurdodau unigol benderfynu arno, yng ngoleuni amgylchiadau lleol ac ar ôl ymgynghori ag ysgolion, yw pa un a ddylai amddifadedd fod yn ffactor yn y fformiwla leol ac, os ydyw, pa bwysiad y dylid ei roi iddo.

Mae'n wir y gellid gwneud amddifadedd cymdeithasol yn nodwedd orfodol o fformiwla gyllido awdurdodau addysg lleol yn unol ag Adran 47 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. I wneud hyn, fodd bynnag, byddai'n rhaid newid y rheoliadau cyfredol a fyddai'n cynnwys amddifadedd cymdeithasol yn y categori 'materion eraill', y mae gofyn i'r awdurdodau gydymffurfio â hwy a'u cynnwys yn eu fformiwlâu cyllido. Fel a nodais yn fy ymateb ichi yn y Cyfarfod Llawn, byddwn yn ymgynghori'n fuan ynghylch disodli Rheoliadau Cyllido Ysgolion a Gynhelir 1999 (fel y'u diwygiwyd). Bydd y rheoliadau newydd yn cyfnerthu'r newidiadau a wnaethpwyd er 1999 yn ogystal â chwmpasu darpariaethau a ymgorfforwyd yn Neddf Addysg 2002. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r ffactorau sy'n ymddangos yn y fformiwla gyllido leol. Caiff dogfen ymgynghori ei chyhoeddi'n fuan. Bydd yn ceisio barn ynglŷn â pha ffactorau y dylid eu hystyried fel 'materion eraill' y mae'n rhaid eu cynnwys yn y fformiwla a pha ffactorau ddylai fod ar gael i awdurdodau i'w hystyried yn y fformiwla, yng ngoleuni anghenion ac amgylchiadau lleol. Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn ystyried o'r newydd y gofyniad cyfredol y dylai o leiaf 75 y cant o'r cyllidebau a ddirprwyir i ysgolion cynradd ac uwchradd gael eu rhannu ar sail ffactorau sy'n canolbwyntio ar y disgyblion. Y bwriad yw y dylai'r rheoliadau newydd gael eu cyflwyno ar gyfer blwyddyn ariannol 2004-05.

O ran y pwynt olaf a godwyd gennych, gwyddom o waith a wnaethpwyd yn ddiweddar gan y Comisiwn Archwilio, ar ein cais ni, fod nifer o awdurdodau yn defnyddio amddifadedd fel ffactor wrth ddyrannu cyllidebau ysgolion. Mae pump yn defnyddio'r hawl i brydau ysgol am ddim; mae pedwar yn defnyddio'r hawl i brydau ysgol am ddim, wedi'i chyfuno â ffactorau eraill (gallu darllen disgyblion neu ganlyniadau TASau, nifer y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig, lleoliad o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf); mae dau awdurdod heb fod yn defnyddio ffactorau amddifadedd yn eu fformiwla ond mae un o'r rhain yn targedu amddifadedd drwy gyllid y tu allan i'r gyllideb ysgolion leol, h.y. drwy gyllid y bartneriaeth plant a phobl ifanc.

Byddaf yn gwneud yn siŵr fod copi o'r llythyr hwn yn cael ei gofrestru yn Llyfrgell yr Aelodau.